



## CYNGOR BRO MORGANNWG

### DISGRIFIAD SWYDD

<b>RÔL/TEITL Y SWYDD</b>	:	Gweithiwr Gofal Plant Sesiynol Dechrau'n Deg
<b>RHIF Y SWYDD</b>	:	V/CF/PDT89
<b>ADRAN/CYFARWYDDIAETH</b>	:	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc/Gwasanaethau Cymdeithasol
<b>ISADRAN/ADRAN</b>	:	Dechrau'n Deg
<b>LLEOLIAD</b>	:	Ardaloedd Dechrau'n Deg Y Barri
<b>GRADDDFA'R SWYDD</b>	:	Graddfa D
<b>YN ATEBOL I</b>	:	Arweinydd Gofal Plant
<b>YN GYFRIFOL AM</b>	:	
<b>YN CYSYLLTU AG</b>	:	Iechyd a'r Sector Gwirfoddol
<b>PRIF DDIBEN Y SWYDD</b>	:	Cefnogi'r elfen yn rhaglen Dechrau'n Deg sy'n ymwneud â chynnig gofal plant o safon i blant rhwng 0 a 4 oed yn yr ardaloedd sy'n gweithredu'r rhaglen. Bod ar gael i weithio pan fydd staff y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn absennol.

### PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

*Mae disgrifiad swydd yn sôn am brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd. Ni fydd o angenrheidrwydd yn rhestru pob tasg y bydd yn rhaid ei chyflawni er mwyn dod i ben â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hynny.*

- Ymgynghori â rhieni ynglŷn â chynlluniau gofal a lles eu plant.
- Cydweithio â'r broses o gynllunio, monitro a phwyso a mesur effeithiolrwydd y prosiect o safbwynt cyflawni ei dasgau a helpu'r grŵp i gyrraedd ei nodau cyffredinol.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant pan fydd angen.
- Sicrhau cyfrinachedd.

- Cymryd unrhyw wyliau yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Gweithredu fel Gweithiwr Allweddol i grŵp bach o blant.
- Cydymffurfio â Safonau AGGCC ar gyfer Gofal Plant Rheoledig.
- Helpu i gynllunio a chynnal gweithgareddau sydd o gymorth i blant ddatblygu.
- Gweithio mewn ffordd hyblyg – a deall yr angen am weithio mewn nifer o wahanol leoliadau gofal plant yn ôl y gofyn.
- Cydgysylltu â staff Dechrau'n Deg a staff y Prosiect a chydweithio'n broffesiynol ag asiantaethau eraill sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros ddiogelu'r cyhoedd.
- Cymryd rhan effeithiol mewn gwaith goruchwyllo a chyfarfodydd tîm mewnol a manteisio ar bob cyfle i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â pholisi goruchwyllo'r adran.
- Cydymffurfio â pholisïau'r Prosiect sy'n ymwneud â chyfrinachedd a gwahaniaethu ar sail annheg.
- Gweithredu yn ôl egwyddorion Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch / pholisïau a dulliau gweithredu perthnasol y Cyngor. Bod yn gyfrifol o fewn rheswm am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch unrhyw rai y gallai eich gweithredu neu'ch diffyg gweithredu effeithio'n andwyol arnynt.
- Gweithredu yn ôl egwyddorion polisi amgylcheddol y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae'n rhesymol i'r Prif Swyddog ofyn i chi eu cyflawni o bryd i'w gilydd, sy'n gweddu i raddfa a chymeriad cyffredinol y swydd.

**LLOFNOD:**  
(Cyfarwyddwr/Prif Swyddog)

**DYDDIAD:**

**LLOFNOD:**  
(Deiliad y Swydd)

**DYDDIAD:**